

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
5 Mawrth 2018 yn Neuadd Jiwibili, Llangeitho am 8 o'r gloch.

Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday 5 March 2018 at Jubilee Hall, Llangeitho, at 8pm

Gan nad oedd y Cadeirydd na'r Is-gadeirydd yn bresennol enwebwyd Cyng Beryl Evans fel Cadeirydd am y noson.
As neither the Chair nor the Vice-Chair were present, Cllr Beryl Evans was nominated as Chair for the evening.

Presennol/Present

Cyng Beryl Evans (Gadair/Chair), Gwilym Evans, Gerwyn Ebenezer, Emyr Jones, Dafydd Morse, Daniel Thomas, Cyng Rhodri Evans

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng Rhian Turner, Paul Rooke, John Evans, Eirian Jones a Cyng Myrddin James.

Datgan Diddordeb/Declaring an Interest – Neb/No one

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng Dafydd Morse ac eiliwyd gan Cyng Gerwyn Ebenezer.
Cllr Dafydd Morse proposed accepting the Minutes of the last meeting, and this was seconded by Cllr Gerwyn Ebenezer.

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from the Minutes

- Glwyd parc Llangeitho wedi cael ei rhoi nol arno gan gynnwys y byffer newydd ar y glwyd, Clerc wedi cysylltu â Mr Ray Burrell am ychydig o baent i ddodi ar y glwyd.
- *Llangeitho's park gate has now been reinstated with its new buffer. Clerk has contacted Mr Ray Burrell for some paint for the gate.*
- Darllenwyd amcanbris Kieran Elliott o Elliot Ryder Conservation am £3,413.73 i wneud gwaith cynnal a chadw ar gerflun y milwr ar y cylchfan yn Llangeitho.
- *Kieran Elliott from Elliot Ryder Conservation's estimate for the maintenance work on the war memorial near Llangeitho roundabout was read out: £3,413.73.*
- Henry Bulman wedi adnewyddu'r boards ar cysgodfan bws Stags Head, gan glirio'r drysni oddi amgylch y cysgodfan hefyd a chlanhau'r cyfan tu fewn hefyd.
- *Henry Bulman has renewed the boards on Stags Head bus shelter, and also cleared the thicket surrounding the bus shelter and cleaned the inside of the bus shelter.*
- Ni fedrodd Cyng Rhian Turner mynychu'r agoriadol swyddogol o Caron Hamdden Leisure ond mynychodd y clerc ar ran y Cyngor Cymuned.
- *Cllr Rhian Turner was unable to attend the official opening of Caron Leisure Centre, but the clerk attended on behalf of the Community Council.*
- Llythyr o ddiolch wedi'u dderbyn oddi wrth Arwel Jones a Ray Williams, Cyd-ysgrifenyddion Cymru-Ohio 2018 am y rhodd ariannol.
- *Letter of thanks from Arwel Jones and Ray Williams, joint secretaries of the Wales-Ohio 200-year celebrations, for the financial donation.*
- Derbyniwyd ymateb oddi wrth Mrs Glynis Davies, Rheolwr y Gwasanaethau Etholiadol am y ffordd a godwyd y ffioedd am gynnal etholiadau ar y rhanbarth pleidleisio yn hytrach nag ar nifer yr etholwyr. Derbyniwyd cadarnhad hefyd oddi wrth Elin Jones AC a Ben Lake AS.
- *Response received from Mrs Glynis Davies, Election Services Manager, about the way fees were raised for holding elections on the regional vote, rather than on the number of constituents. Confirmation was also received from Elin Jones AM and Ben Lake MP.*
- Cyng Beryl Evans i drosglwyddo manylion perchennog cae i'r Clerc, sy'n achosi'r broblem dwr ar dro'r Eglwys Llangeitho iddi gael trosglwyddo'r manylion i Cyng Rhodri Evans.
- *Cllr Beryl Evans to hand over details about the owner of a field, where water accumulates flooding the bend near to Llangeitho church, to the Clerk who will then pass it on to Cllr Rhodri Evans.*
- Cwyn wedi'u hanfon ymlaen i'r Cyngor Sir ers y cyfarfod diwethaf am y pwll dwr oedd draws y ffordd Parciau Gwynion, Rhydypany, Llangeitho a Fronfelen, Cyng Rhodri Evans i wneud ymchwil pellach.
- *Complaint received since the last meeting forwarded to the County Council about the water which accumulates across the road at Parciau Gwynion, Rhydypany, Llangeitho and Fronfelen. Cllr Rhodri Evans to make further enquiries.*
- Tyllau yn y ffordd heibio Penrhiw Villa am Llwynpiod wedi'u llenwi yn foddhaol.
- *Potholes in the road past Penrhiw Villa towards Llwynpiod have been filled satisfactorily.*
- Cyng Rhodri Evans i wneud ymchwil am y posibilrwydd o lenwi tyllau ar ben lon Cymorthfa/Pentre Padarn, Llwynpiod gan fod y difrod yn digwydd oherwydd bod y ceir yn tynnu mewn ar y ffordd gul.

- *Cllr Rhodri Evans to make enquiries about the possibility of filling potholes at the top of Cymorthfa/Pentre Padarn lane, Llwynpiod, as there is damage due to vehicles pulling in for passing on this narrow road.*

Gohebiaeth/Correspondence

- *Derbyniwyd manylion a phhecyn 'Taith dros fywyd – Ebrill i Fehefin 2018 oddi wrth 'Aren Cymru' yn ein gwahodd i drefnu taith gerdded yn ein hardal.*
- *Details and a package 'Journey for life – April to June 2018' from Kidney Wales were received, inviting us to organise a sponsored walk in our area.*

Cyfrifon/Accounts

- *Gwaith atgyweirio arosfan bws Stags Head - Henry Bulman £360.00*
- *Work to repair Stags Head bus shelter – Henry Bulman £360.00*
- *Aelodaeth Un Llais Cymru £117*
- *Membership of One Voice Wales £117*
- *Balans yn y banc £8,510.30*
- *Balance in the bank £8,510.30*

Cytunwyd i dalu'r infois uchod ar gynnig Cyng Daniel Thomas ac eiliwyd gan Cyng Gwilym Evans. Payment of invoices was proposed by Cllr Daniel Thomas, and this was seconded by Cllr Gwilym Evans.

Cyngor Sir Ceredigion/Ceredigion County Council

- *Cais Cynllunio – A180097 – Fronfelen, Llangeitho – Codi adeilad i'w ddefnyddio fel catri a gwaith cysylltiedig*
- *Planning Application – A180097 – Fronfelen, Llangeitho – Erect a building to be used as a cattery and associated work*
- *Cais Cynllunio – A180056 – Cefn-y-Garn, Llangeitho – Codi adeilad amaethyddol newydd*
- *Planning Application – A180056 – Cefn-y-Garn, Llangeitho – Erect a new agricultural building*

Cytunwyd i gefnogi'r ceisiadau cynllunio uchod ar gynnig Cyng Daniel Thomas ac eiliwyd gan Cyng Dafydd Morse. It was agreed to support these planning applications; this was proposed by Cllr Daniel Thomas, and this was seconded by Cllr Dafydd Morse.

Comisiwn Ffiniau/Boundaries' Commission

Yn dilyn cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar nos Fercher 14 Chwefror 2018 am 8 o'r gloch lle cytunwyd i Cyng Dafydd Morse ddrafftio ymateb o'r Cyngor Cymuned, i'w gylchredeg gan y Clerc i'r holl gynghorwyr, trafodwyd y llythyr a chytunwyd ar ambell i newidiad bach. Cyng Dafydd Morse i wneud y newidiadau, trosglwyddo i'r clerch i ddodi ar bapur swyddogol y Cyngor Cymuned. Cyng Dafydd Morse a Cyng Gerwyn Ebenezer i fynd oddi amgylch y Cadeirydd a'r Cynghorwyr i gael nhw i arwyddo'r llythyr yn bersonol, clerch i'w bostio yn dilyn y llofnodion.

Hefyd trafodwyd a chytunwyd i baratoi llythyr i'r gymuned gyfan, efo nifer o resymau i beidio ag ymuno efo Cyngor Tref Tregaron, fel awgrymwyd yn y ddogfen 'Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Ceredigion' gan Grŵp Cymunedol Blaenpennal a Bontnewydd. Cyng Dafydd Morse i wneud y mân newidiadau, anfon ymlaen i gael ei brintio a'i ddsbarthu gyda Cyng Dafydd Morse a Cyng Gerwyn Ebenezer i'r Cynghorwyr gael mynd oddi amgylch ei dalgylch i'w cwblhau ar ôl 20fed o Fawrth 2018. Llythyr y gymuned i'w dychwelyd i'r Clerc yn cyfarfod nesaf o'r Cyngor cymuned a gynhelir ar nos Lun 9fed o Ebrill 2018.

Following a special meeting of the Community Council held on Wednesday, 14 February 2018, at 8p.m., it was agreed that Cllr Dafydd Morse should draft a response from the Community Council, to be later circulated among the Councillors. The contents of the letter was discussed and a few minor changes made. Cllr Dafydd Morse to make the changes, hand it over to the Clerk to be placed on the official letter headed paper of the Community Council. Cllrs Dafydd Morse and Gerwyn Ebenezer to visit the Chair and Councillors in order to sign the letter; clerk to post the letter after it has been signed by all Councillors.

It was also discussed and agreed that a letter should be prepared from the whole community, with reasons why the Council objected to joining Tregaron Town Council, as suggested in the document 'Survey of Ceredigion Election Arrangements' by a community group in Blaenpennal and Bontnewydd. Cllr Dafydd Morse to make the minor changes, forward the letter to be printed and distributed by Cllrs Dafydd Morse and Gerwyn Ebenezer to all the Councillors so that they, then, could go around their particular area collecting signatures to sign the letter after 20 March 2018. Community letters to be returned to the Clerk at the next meeting of the Community Council on Monday, 9 April 2018.

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Gofynnir i'r clerc gysylltu efo Mr Edward Romaine am sefyllfa'r melin wynt yn Goyallt a'r swm o arian oedd fod dychwelyd i'r Gymuned.
- *Clerk asked to contact Mr Edward Romaine about the latest regarding the wind turbine at Goyallt, with respect to the sum of money which was promised to be returned to the community.*
- Soniwyd bod cyflwr y pont bren sy'n croesi'r afon Aeron ar bwys Aeron Villa, Rhydypanyd mewn cyflwr gwael ac angen sylw, hefyd soniwyd am y ffordd sy'n mynd lawr am y pont bren sydd mewn cyflwr gwael ac angen gwaith wedi'u wneud arno, Clerc i gysylltu â Mr Eifion Jones.
- *It was noted that the condition of the wooden bridge which crosses the river Aeron near Aeron Villa, Rhydypanyd, was poor and needed attention. Also it was noted that the lane which goes down to the bridge was in a poor condition and needed attention. Clerk to contact Mr Eifion Jones.*
- Derbyniwyd cwyn am culvert oedd wedi rhoi fewn ar yr ochr dde wrth droi lan o Parcrhydderch, Llangeitho, SY25 6QG lan am Bronaeron, Llangeitho, SY25 6QQ, Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.
- *Complaint received about the state of a culvert on the right as you turn up from Parcrhydderch, Llangeitho, SY25 6QG towards Bronaeron, Llangeitho, SY25 6QQ. Clerk to inform the County Council.*
- Derbyniwyd cwyn am 4 coed oedd wedi dechrau cwmpo yng nghae Maeshelen, Stags Head, yn dilyn y storm ddiweddar a gafwyd, soniwyd bod y coed yn dechrau dod i lawr ar ben y llinellau ffôn a thrydan ac yn pwyso allan i'r ffordd fawr. Clerc i ysgrifennu at y Cyngor Sir.
- *Compliant received about 4 trees which have begun falling in a field at Maeshelen, Stags Head, following a recent storm. It was noted that the trees had begun to fall on telephone and electricity lines and were overhanging the main road. Clerk to write to the County Council.*

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date and Location of next meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Ffestri Capel Llwynpiod, ar 9fed o Ebrill 2018 am 8 o'r gloch.

The next meeting will be held at Llwynpiod Chapel Vestry, on Monday, 9 April 2018, at 8p.m.